C.Y.M.R.U

Cymru. Dewch ar daith gyda ni.
Dewch i Gymru. Gallwch gael hwyl a sbri.
Dewch i Gymru. Mae'n le gwych, wir i chi.
Mae'n siwr chewch chi ddim eich siomi.

Cymru. Gallwch neidio i'r môr.
Dewch i Gymru. Gallwch ganu mewn côr.
Dewch i Gymru. Gallwch siopa drwy'r dydd
Yn y siopau yng Nghaerdydd.

Cytgan
Lle bendigedig yw C.Y.M.R.U.
Lle bendigedig yw C.Y.M.R.U.
Ar ein baner mae'r ddraig. 'Dyn ni'n siarad Cymraeg.
Bore da! Helo! Shwmae!
C.Y.M.R.U.
Lle bendigedig yw C.Y.M.R.U.
Mae'n wlad prydferth a bach. Lle mae'r awyr yn iach.
Lle mae digon i weld a gwneud.

Cymru. Gallwch gerdded ar draeth.
Dewch i Gymru. Cewch chi hwyl ar eich taith.
Dewch i Gymru. Golygfeydd prydferth iawn
Yn y bore neu'r prynhawn.

Cymru. Mae'r tîm rygbi yn dda.
Dewch i Gymru. Cerddwch lan i'r Wyddfa.
Dewch i Gymru. Mae na weiren zip hir;
Gallwch hedfan dros y tir.

Cytgan

Cymru. Mae'r awyr yn las.
Dewch i Gymru. Ie, mae digon o flas.
Dewch i Gymru. Bara brith a chig oen;
Gallwch fwyta beth chi moyn.

Cymru. Mae na ddefaid bob man.
Dewch i Gymru. Mewn bws, car neu mewn fan.
Dewch i Gymru. Mae na gestyll di-ri
Mae na rywbeth at eich dant chi.